

Bwrdd Cyngori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru**3 Chwefror 2017, Gorsaf Dân Y Drenewydd, Y Drenewydd****Cofnodion****Aelodau**

Michael Prior (MP)	Cadeirydd Annibynnol
Y Cyng. Janice Dudley (JD)	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cyng. Sylvia Jones (SJ)	Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Grant Mayos (GM)	Undeb y Brigadau Tân, Aelod Gweithredol o'r Cyngor dros Gymru
Paul Scott (PS)	Cymdeithas Swyddogion Tân

Swyddogion Presennol

Mark Miles (MM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Phil Haynes (PH)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Dawn Docx (DD)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Eraill a oedd yn Bresennol

Clair Alcock (CA)	Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cerith Griffiths (CG)	Undeb y Brigadau Tân, ar ran Sean Starbuck

Swyddogion Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)

Kerry Citric (KC)	Y Gangen Gwasanaethau Tân
Cerys Myers (CM)	Y Gangen Gwasanaethau Tân
Natalie Spiller (NS)	Y Gangen Gwasanaethau Tân

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Tudor Owen	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Mick Crennell	Cymdeithas Prif Swyddogion Tân
Sean Starbuck	Undeb y Brigadau Tân
Adrian Hughes	Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn

EITEM 1 AR YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNIADAU

1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod a rhoddodd groeso cynnes i Clair Alcock o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a oedd yn bresennol am y tro cyntaf. Croesawodd hefyd Cerith Griffiths, a oedd yno ar ran Sean Starbuck, a Mark Miles, sef y swyddog a oedd yn bresennol o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn ymddioliad Liz Aitken. Nododd MP fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Adrian Hughes, y Cynghorydd Tudor Owen, Mick Crennell a Sean Starbuck.

1.2 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau i'w datgan.

EITEM 2 AR YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2016 a gwahoddodd aelodau i gytuno ar gywirdeb y cofnodion. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

2.2 Cyfeiriodd MP at y materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol ac eglurodd y cafwyd diweddariad ar y cam gweithredu yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf yn FPSABW(Min)(16)02. Byddai pwyntiau gweithredu sy'n ymwneud â Llywodraethu, Prasio ac Arenillion y Gyfradd Cyfraniadau Gweithwyr yn cael eu trafod yn yr agenda. Dywedodd MP wrth y Bwrdd y byddai diweddariadau gan Sean Starbuck ar *drefniadau pontio, arenillion y gyfradd cyfraniadau gweithwyr a phensiwn gwarchodedig* yn cael eu gohirio tan y cyfarfod nesaf.

2.3 Gwahoddwyd MM gan MP i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am achos Norman v Cheshire. Esboniodd MM fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cwblhau'r Broses Penderfynu ar Anghydfod Mewnol a'u bod yn aros am ymateb. Disgwylid cael ymateb erbyn 9 Chwefror 2017.

2.4 Dywedodd CA y trafodwyd cyflog pensiynadwy yn y Gynhadledd Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol flynyddol. Amlygodd y drafodaeth fod awdurdodau tân ac achub ar wahanol gamau o ymdrin â'r mater. Eglurodd CA fod Bwrdd Cynghori Cynllun Lloegr yn ystyried comisiynu cyngor cyfreithiol ar gymhwyso cyflog pensiynadwy. Croesawodd GM ddull cenedlaethol cyson. Cytunodd CA i gysylltu â MM pan fydd amserlen wedi'i datblygu gan Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr. Ychwanegodd MP mai'r Awdurdodau Tân ac Achub ddylai wneud y penderfyniadau ar gyflog pensiynadwy ond y byddai'r eitem yn aros ar yr agenda tan i'r mater gael ei ddatrys.

2.5 Ychwanegodd CA y cafwyd cyflwyniad hefyd ar oedran pensiwn gwarchodedig yn y gynhadledd. Roedd Bwrdd Cynghori Cynllun yr Alban yn bwriadu dosbarthu cylchlythyr ar y mater a chytunodd CA i'w rannu â'r Bwrdd pan fydd wedi dod i law.

2.6 Eglurodd PH fod tri achos ynglŷn ag oedran gwarchodedig yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi'u cyfeirio i'r Ombwdsmon Pensiynau. Ychwanegodd PH er nad oedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi rhoi cyngor ar y mater ar y pryd, bod Undeb y Brigadau Tân wedi darparu gwybodaeth. Gwnaeth GM sylw ynglŷn â diffyg y cylchlythyron gan Lywodraeth Cymru. Nododd KC nad oedd materion sy'n ymwneud â threth wedi'u datganoli, ac felly nad oeddent yn faterion y byddai Llywodraeth Cymru yn cynghori arnynt.

EITEM 3 AR YR AGENDA – Y DIWEDDARAF AM DRAFODAETHAU YNG NGHYFARFODYDD BWRDD CYNGHORI CYNLLUN LLOEGR

3.1 Awgrymodd MP y dylid gohirio'r drafodaeth ynglŷn â swyddogaeth y Bwrdd tan i'r wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr gan CA ddod i law. Newidiwyd trefn Eitemau 3 a 4 ar yr Agenda felly, a chafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr fel Eitem 3 ar yr Agenda.

3.2 Cafodd CA ei gwahodd gan MP i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr. Dywedodd CA fod Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn cynnwys saith cynrychiolydd cyflogwyr (Cynghorwyr), saith cynrychiolydd gweithwyr (gan gynnwys Undeb y Brigadau Tân x 4, FOA x 1, RFU x 1 ac APFO x 1) yn ogystal â'r Cadeirydd. Eglurodd CA fod gan y Swyddfa Gartref statws goruchwyllo ar y Bwrdd a bod ganddi bresenoldeb rheolaidd yn y cyfarfodydd. Gwahoddir cynghorwyr ffurfiol i gyfarfodydd y bwrdd yn ôl y galw.

3.3 Eglurodd CA mai un o'r heriau i Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr oedd cysondeb ar draws y 44 o awdurdodau tân ac achub yn Lloegr. Er mwyn goresgyn yr her hon, neilltuwyd cyllideb o £136,000 i Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr, ac roedd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer swyddog cyfathrebu a chyngor ar faterion cyfreithiol ac actiwaraid. Byddai'r swyddog cyfathrebu yn gyfrifol am gyfathrebiadau canolog, gan gynnwys canllawiau cyffredinol a thempledi. Roedd y gyllideb wedi'i seilio ar ardoll o £4.05 fesul pob aelod gweithredol o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a godwyd ar awdurdodau tân ac achub.

3.4 Yn ogystal â hyn, roedd Bwrdd Cynghori Cynllun Lloegr wedi ffurfio nifer o is-bwyllgorau er mwyn ystyried effeithiolrwydd o ran cost; meincnodi / arfer gorau; a gofynion hyfforddi. O ran y gofynion hyfforddi, dywedodd CA wrth y grŵp y gofynnwyd am gostau gan ddarparwyr hyfforddiant i ddarparu hyfforddiant ar faterion lwfans treth pensiwn yn dilyn y newidiadau a wnaed ym mis Ebrill 2016. Dywedodd CA y gellid ymestyn y gwahoddiad ar gyfer yr hyfforddiant i aelodau Bwrdd Cynghori Cynllun Cymru pan fydd trefniadau wedi'u cadarnhau.

3.5 Holodd DD ynglŷn â'r broses o raeadru gwybodaeth o Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr i'r awdurdodau tân ac achub yn Lloegr. Dywedodd CA y cyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Cynghori Cynllun Lloegr yng nghyfarfodydd y byrddau pensiwn lleol. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hynny ar gael ar fforwm y byrddau pensiwn lleol. Ychwanegodd CA fod angen ffurfioli'r strwythur cyfathrebu ac y byddai'r swyddog cyfathrebu yn mynd i'r afael â hyn. Ychwanegodd CA y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatganoli cyfrifoldebau i ranbarthau oherwydd bod 30 o wahanol weinyddwyr cynllun ar gyfer cynlluniau pensiwn y gwasanaeth tân yn Lloegr.

EITEM 4 AR YR AGENDA – LLYWODRAETHU

4.1 Gwahoddodd MP yr aelodau i adolygu'r cylch gorchwyl gan na chytunwyd arnynt yn ffurfiol yn y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon ar y cylch gorchwyl.

4.2 Nododd MP y cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ynghylch pa un a oedd y Bwrdd yn dymuno sefydlu cyllideb. Cytunwyd ar ohirio'r drafodaeth tan y

cafwyd rhagor o wybodaeth am sefyllfa cyllid Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr. Roedd Clair Alcock yn garedig wedi rhoi manylion am gyllid Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr. Roedd gan y Bwrdd gyllideb o £136,000 wedi'i seilio ar ardoll i awdurdodau tân ac achub o £4.05 ar gyfer pob diffoddwr tân gweithredol. Nododd MP y byddai cyllideb ddrafft wedi'i seilio ar y model hwn yn hafal i gyfraniadau o oddeutu £1,900 gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, £4,500 gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac £8,200 gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Byddai'r cyfraniadau yn rhoi cyllideb gyffredinol o £14,600 i'r Bwrdd. Ychwanegodd KC mai prin fyddai buddion cyllideb o'r maint hwn o ran cyngor actiwaraid ac er enghraifft dywedodd wrth y Bwrdd fod y Cyfrifydd Gwyliau Cyfraniadau Pensiwn gan Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi costio £7,000.

4.3 Eglurodd DD ei bod yn pryderu ynglŷn â model Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr ar y dechrau, ond bod y diweddariad gan CA wedi lleddfu'r pryderon hynny. Ychwanegodd DD ei bod erbyn hyn yn cydnabod gwerth y ffrydiau gwaith a buddion gweithio'n gydweithredol. Awgrymodd KC mai ateb posibl fyddai "prynu i mewn" i gyllideb Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr.

4.4 Dywedodd y Cyngorydd JD ei bod yn bwysig hyfforddi aelodau a gofynnodd i CA sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. Awgrymodd CA y gellid ystyried cynyddu cyllideb Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr er mwyn gallu rhannu canllawiau, templedi a hyfforddiant â Bwrdd Cyngori Cynllun Cymru. Awgrymodd CA y dylid trafod y mater ymhellach gyda Malcolm Eastwood (Cadeirydd Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr) a KC er mwyn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd y Bwrdd ar yr egwyddor o fod â chyllideb a phob awdurdod tân ac achub yn darparu cyfran o'r cyfraniadau ond y byddai'n trafod hyn yn fanylach pan fydd y goblygiadau ariannol yn hysbys.

EITEM 5 AR YR AGENDA – PRISIO

Arenillion y Gyfradd Cyfraniadau Gweithwyr

5.1 Atgoffodd KC y Bwrdd am y papur Arenillion Gweithwyr a ddarparwyd yn y cyfarfod diwethaf a oedd yn rhoi manylion arenillion y gyfradd cyfraniadau gweithwyr ar gyfer 2015-16. Arenillion y cyfraniadau ar gyfer 2015-16 oedd 13.1%, yn unol ag amcangyfrifon arenillion Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer y cyfnod hwnnw. Roedd yr aelodau wedi mynegi pryderon ynglŷn â pha un a oedd y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn adroddiadau Prisio 2012 yn gyson â symudiadau gwirioneddol aelodau'r cynllun. Roedd barn y byddai lefel yr aelodau sydd wedi/ar fin ymddeol o gynllun 1992, ynghyd â'r nifer o bobl a allai optio allan o gynllun 2015, a'r cyfraddau cyfraniadau is i gyd yn effeithio ar yr arenillion. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i adolygu gwybodaeth brisio bresennol Adran Actiwari'r Llywodraeth a'i rhannu ag Aelodau'r Bwrdd.

5.2 Dywedodd KC fod Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi darparu manylion ers hynny am y data a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gadarnhau arenillion cyfartalog cyfraniadau gweithwyr. Dangosodd yr wybodaeth a oedd wedi'i dosbarthu i'r aelodau fod arenillion cyffredinol cyfraniadau gweithwyr rhagdybiaethol o 13.2% ar gyfer y

cyfnod prasio yn cael eu dadansoddi yn flynyddol a rhagdybiwyd arenillion o 13.1% yn 2015/16 a 2016/17 gan gynyddu i 13.2% yn 2017.

5.3 Roedd hyn yn unol â'r arenillion gwirioneddol o 13.1% ar gyfer 15-16 a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi nodi y byddai gwneud gwaith ychwanegol i adolygu ffigurau gwirioneddol o'u cymharu â'r rhagdybiaethau ar y cam hwn yn wastraff adnoddau gan y byddai'r wybodaeth ddiwygiedig ar gael ym mis Medi yn rhan o brisiad 2016.

5.4 Cyfeiriodd MP at y pryderon blaenorol ynglŷn â chynnal yr arenillion, o ystyried mai aelodau Cynllun 1992 oedd y brif ffrwd arian. Pwysleisiodd MP fod Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi ystyried hyn yn rhan o'r prisiad gwreiddiol.

Data Optio Allan

5.5 Cyfeiriodd CM at FPSABW(17) 01 a oedd yn rhoi darlun cyffredinol i aelodau o symudiadau aelodau'r cynllun rhwng 2013 a 2017. Roedd y data sawl gwall ac felly bod y ffigurau ychydig yn wahanol i'r rhai a ddosbarthwyd. Eglurodd CM data gwirioneddol 2016-17 yn dangos cyfradd optio allan o 1.39% ar gyfer diffoddwyr tân amser llawn a 3.17% ar gyfer diffoddwyr tân System Ddyletswydd Wrth Gefn yng nghynllun 2015, a chyfradd gyffredinol o 1.33%. Roedd y data ar gyfer y cyfnod 2013/14 yn arbennig o uchel o ganlyniad i'r ymrestru awtomatig.

5.6 Nododd PH fod y ffigurau aelodaeth a gafwyd o ddata FPF1 Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ymddangos yn arbennig o uchel ac ymrwymodd i adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Cytunodd CM i oedi dosbarthiad y papur diwygiedig tan fod eglurhad ynglŷn â'r ffigurau wedi dod i law.

5.7 Dywedodd GM fod Undeb y Brigadau Tân wedi cynghori aelodau i beidio ag optio allan o'r cynlluniau a gwnaeth sylw ar y nifer o uchel o ddiffoddwyr tân wrth gefn a oedd wedi optio allan.

Prasio

5.8 Cyfeiriodd PS at y data symudiadau a oedd ar gael ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân yr Alban, a oedd yn cynnwys dadansoddiad fesul ystod cyflog, rhyw ac oedran. Cadarnhaodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi cipio yr un data ac y gallai roi dadansoddiad pellach pe byddai'r bwrdd o'r farn bod ei angen.

5.9 Cyfeiriodd KC at brisiad 2016 ac esboniodd y byddai Adran Actiwari'r Llywodraeth yn llunio'r gyfres gyntaf o ragdybiaethau drafft ym mis Medi. Esboniodd KC y byddai hyn yn gam allweddol ar gyfer y Bwrdd oherwydd y byddai angen i aelodau roi ystyriaeth i'r rhagdybiaethau a darparu safbwyntiau i Lywodraeth Cymru. Byddai'r rhagdybiaethau hyn wedyn yn sylfaen i'r prisiad llawn, yn dilyn cymeradwyaeth gan Drysorlys EM. Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi/Hydref ar ôl cael dyddiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer pryd y byddai'r data yn dod i law. Byddai'r prisiad terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn mis Ebrill 2018 a dyna pryd y byddai angen trafod, o bosibl, penderfyniadau o ran

unrhyw newidiadau yr oedd angen eu gwneud i gyfraddau cyfraniadau neu addasiadau i'r cynllun.

5.10 Cyfeiriodd PH at y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynnyddol a fyddai'n cael eu cynnal ym mis Mehefin a nododd bryderon ynglŷn â newid aelodaeth y Bwrdd yn sgil etholiadau llywodraeth leol. Nododd MP y pryderon a chydnabod pwysigrwydd cael cynrychiolaeth o bob Awdurdod Tân ac Achub ar y Bwrdd. Awgrymodd MP y gellid trefnu sesiwn hyfforddi ac y byddai hyn yn cael ei drafod o dan unrhyw fusnes arall. Soniodd CA y byddai un o is-bwyllgorau Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr yn edrych ar yr effeithiolrwydd o ran cost y cynlluniau yn Lloegr o ystyried canlyniadau'r prosesau prisio. Dywedodd CA fod Glyn Morgan (FOA) yn aelod o'r pwyllgor ond y byddai'n croesawu cynrychiolaeth o Fwrdd Cyngori Cynllun Cymru. Byddai'r pwyllgor yn ceisio cwrdd ym mis Chwefror.

5.11 Dywedodd KC y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o gyfarfod clwstwr gyda chynrychiolwyr y cynllun, Trysorlys EM ac Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 6 Chwefror.

5.12 Nododd PH bryderon ynglŷn ag effaith penderfyniadau strategol ehangach ar aelodaeth weithredol barhaus o gynllun 2015 na allai Adran Actiwari'r Llywodraeth fod wedi eu hystyried wrth lunio rhagdybiaethau, e.e. y gostyngiad posibl yn niferoedd diffoddwyr tân o ganlyniad i doriadau mewn gwariant cyhoeddus, a diwygio systemau llywodraethu a chyllid awdurdodau tân ac achub. Cadarnhaodd KC y byddai cynigion diwygio yn canolbwyntio ar ddulliau llywodraethu ac ariannu ac na fyddai'n edrych ar wasanaethau'r rheng flaen. Fe'i gwnaed yn eglur yn y Fframwaith Cenedlaethol hefyd fod y pwyslais yng Nghymru ar arallgyfeirio yn hytrach na lleihau swyddi'r rheng flaen, er bod hyn yn y pen draw yn fater i'r awdurdodau tân ac achub. Cyfeiriodd PH at effaith ffactorau cymudo mwy ffafriol yng Nghymru ac amlygodd nad oedd y dyrchafiadau dros dro o dan reoliadau 2015 yn bensiynadwy. Dywedodd MP y byddai'r holl bryderon hyn yn llywio prisiad 2016.

EITEM 6 AR YR AGENDA – RHEOLEIDDIWR PENSIWN

6.1 Cyflwynodd MP yr eitem a chyfeiriodd at lefel y llywodraethu a gweinyddu sydd ynghlwm wrth gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân. Roedd y Rheoleiddiwr Pensiwn wedi cyhoeddi ei ail adroddiad ym mis Rhagfyr 2015 ar sail gwybodaeth o arolwg a gynhaliwyd yn ystod haf 2015. Roedd arolwg arall ar waith erbyn hyn a chadarnhaodd y tri awdurdod tân ac achub eu bod wedi cymryd rhan. Ychwanegodd CA y bu'r gyfradd ymateb i'r arolwg yn llawer uwch eleni o'i chymharu â'r arolwg a gynhaliwyd yn 2015 ond nad oedd y canlyniadau'n hysbys hyd yn hyn.

6.2 Cyfeiriodd MP at yr offer hunanasesu a oedd ar gael i helpu Rheolwyr Cynllun i reoleiddio cynlluniau pensiwn. Aeth MP ymlaen trwy ddweud bod y Rheoleiddiwr Pensiwn yn ystyried ei ddull o reoleiddio cynlluniau pensiwn cyhoeddus yn y dyfodol a pha un a fyddai gweithgarwch rheoleiddio ehangach o fudd.

6.3 Cadarnhaodd MM fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi defnyddio'r offeryn ac yn sgil hyn wedi nodi tri maes lle'r oedd angen gweithredu i wella prosesau llywodraethu a gweinyddu pensiwn.

6.4 Dywedodd PH wrth y Bwrdd y byddai'r offeryn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror.

6.5 Ychwanegodd PH fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi mynd yn groes i ofynion yn flaenorol, trwy beidio â chyflwyno Datganiadau Buddion Pensiwn Blynyddol 2016 o fewn y terfyn amser gofynnol. Dywedodd CA fod Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr wedi amlygu pryderon ynglŷn â diffyg amser i sicrhau ansawdd y Datganiadau Buddion Blynyddol cyn eu cyflwyno. Roedd problemau hefyd o ran y feddalwedd a systemau'r gyflogres. Roedd y Rheoleiddiwr Pensiwn wedi cael gwybod ac yr oedd yn fodlon derbyn. Ychwanegodd CA fod y Rheoleiddiwr Pensiwn wedi nodi mai ansawdd data, rheoliadau mewnol a chamweddau adrodd yw'r tair prif risg. Roedd is-bwyllgor y Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr yn ystyried datblygu dangosfwrdd y gellid ei ddefnyddio i hysbysu cynlluniau.

6.6 Gofynnodd MP i'r Bwrdd nodi dull y Rheoleiddiwr Pensiwn ac anogodd awdurdodau tân ac achub i barhau i ddefnyddio'r offeryn hunanasesu i gefnogi cydymffurfiaid â gofynion y rheoleiddiwr.

EITEM 7 AR YR AGENDA - Y DIWEDDARAF GAN FYRDDAU PENSIWN LLEOL (GAN GYNNWYS GWYBODAETH NEWYDD GYFFREDINOL)

7.1 Cyfeiriodd MP at y cyfarfod blaenorol pryd y cytunodd cynrychiolwyr yr awdurdodau tân ac achub i drafod dull ar y cyd o gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd. Eglurodd PH fod y tri awdurdod tân ac achub yn defnyddio dull gwahanol a gofynnod a ellid darparu templed. Dywedodd KC mai mater i'r Bwrdd ei ystyried oedd y math o wybodaeth yr hoffai ei chael gan fyrrddau pensiwn lleol. Awgrymodd KC y gellid defnyddio eitem yr agenda fel cyfle i godi pryderon penodol i'w hystyried gan Fwrdd Cyngori'r Cynllun neu i ddysgu o brofiad awdurdodau tân ac achub eraill, yn ogystal â rhannu arfer da.

7.2 Roedd DD o'r farn mai'r awdurdodau tân ac achub oedd wedi rhoi yr eitem ar yr agenda, ac felly nhw ddylai gytuno ar y fformat.

CAM GWEITHREDU: Awdurdodau tân ac achub i gydgyssylltu a chytuno ar ddull o gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyngori'r Cynllun yn y dyfodol.

7.3 Dywedodd MM fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cynnal adolygiad yn erbyn cod ymarfer 14 a bod diweddariad wedi'i roi i'r bwrdd pensiwn lleol. Roedd yr adolygiad wedi amlygu meysydd gwella i'w hystyried.. Byddai MM yn rhannu'r canfyddiadau â'r Bwrdd. Awgrymodd CA y gallai'r canfyddiadau gyfrannu at drafodaethau is-bwyllgor Bwrdd Cyngori Cynllun Lloegr i nodi arfer gorau.

CAM GWEITHREDU: Mark Miles i rannu'r adolygiad yn erbyn ymarfer 14 â'r Bwrdd

EITEM 8 AR YR AGENDA – DIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN DIFFODDWYR TÂN

8.1 Cyflwynodd KC yr eitem a thrafod pob pwynt yn ei dro.

Gwahaniaethu ar sail Oedran (Gwyliau Cyfraniadau Pensiwn)

8.2 Eglurodd KC fod Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 wedi'i osod ym mis Tachwedd ac wedi dod i rym ar 31 Rhagfyr 2016. Byddai taliadau yn cael eu had-dalu trwy daliadau grant ychwanegol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau paratoi llythyron y cynnig grant a byddai'n dosbarthu'r rhain i'r awdurdodau tân ac achub yn fuan. Byddai angen gwneud y mwyafrif o'r taliadau i aelodau'r cynllun yr effeithiwyd arnynt erbyn 31 Mawrth 2017.

8.3 Dywedodd PH wrth y Bwrdd fod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi nodi 90 o achosion posibl. Ychwanegodd PH fod yr awdurdod tân ac achub wedi cael problemau o ran aelodau a oedd wedi marw, aelodau a chanddynt incwm ychwanegol o ffynonellau treth eraill a goblygiadau treth/gordal. Dywedodd CA y byddai gordal yn cael ei achosi pe byddai taliad nas awdurdodwyd yn dod i gyfanswm o fwy na 25% o gost ad-dalu yr aelod. Nodwyd y byddai costau Awdurdodau Tân ac Achub Gogledd a De Cymru yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn fuan.

8.4 Cadarnhaodd MM fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi nodi 42 o achosion. Roedd yr awdurdod wedi darparu costau 31 o'r achosion i Lywodraeth Cymru. Roedd yr 11 achos arall wedi'u cyflwyno i Adran Actiwari'r Llywodraeth i gynnal cyfrifiadau penodol, ac roedd 6 o'r rhain yn ymwneud â gordaliadau.

8.5 Dywedodd KC fod cyllid Llywodraeth Cymru yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2016/17 ac y byddai angen rhyddhau'r cronfeydd cyn 31 Mawrth 2017.

8.6 Cydnabu KC fod yr awdurdodau tân ac achub wedi cael llythyr templed cychwynnol i'w ddefnyddio i gysylltu ag aelodau yr effeithiwyd arnynt ond cadarnhawyd na fyddai llythyr templed dilynol yn cael ei ddarparu.

Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau 1992, 2007 a 2015

8.7 Atgoffodd KC yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi dewis oedi'r ymgynghoriad tan fod y Swyddfa Gartref wedi dadansoddi'r adborth i'w hymgyngghoriad nhw a chwblhau eu diwygiadau. Roedd Llywodraeth Cymru ers hynny wedi cael fersiwn ddrafft o orchmynion diwygiedig Lloegr a byddai'n ymgynghori ar y diwygiadau ar ôl i orchmynion Lloegr gael eu gosod. Disgwylir y byddai hyn yn digwydd ar ddiwedd mis Chwefror.

8.8 Dywedodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Gartref a gweinyddiaethau eraill ynglŷn â mater arall mewn cysylltiad â Throsoglwyddiadau Clwb, pan oedd trefniadau trosiannol a chanlyniadol cynllun 2015

(a'r cynlluniau trefniadau trosiannol cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ond yn caniatáu ar gyfer trosglwyddiadau buddion cyflog terfynol ar draws ffiniau i NFPS 2007 (nid 1992 i 1992). Yr oedd yn debygol y byddai angen diwygio'r rheoliadau i gywiro hyn.

EITEM 9 AR YR AGENDA – Y DIWEDDARAF O DRYSORLYS EM

9.1 Rhoddodd KC ddiweddariad cryno ar eitemau nad ydynt wedi eu datganoli er gwybodaeth i'r Bwrdd.

9.2 Esboniodd KC bod Trysorlys EM wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y modd gorau o ymdrin ag Isafswm Pensiwn Gwarantedig aelodau a effeithir gan gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl mis Rhagfyr 2018. Cylchredwyd yr ymgynghoriad i Reolwyr Cynlluniau a byddai'n cau ar 20 Chwefror.

9.3 Yn y cyfarfod diwethaf, cyfeiriodd KC at y gweithgor yr oedd Trysorlys EM wedi ei sefydlu i ystyried y tan/gordaliadau hanesyddol yn gysylltiedig ag ymarfer cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Dywedodd KC nad oedd Trysorlys EM wedi gwneud penderfyniad eto ynglŷn â sut i drin tan/gordaliadau.

9.4 Rhoddodd KC wybod i'r Bwrdd bod Trysorlys EM yn gwneud gwaith archwilio ynghylch creu Dangosfwrdd Pensiwn a fyddai'n caniatáu i unigolion weld yr holl wybodaeth am eu pensiwn. Mae Trysorlys EM wedi dweud y byddai'r prototeip yn cael ei gyflwyno yn 2019. Dywedodd CA mai nod y dangosfwrdd oedd darparu llwyfan canolog i unigolion allu mynd at y wybodaeth am eu pensiwn ond byddai angen bod data a dulliau rheoli ansawdd cadarn ar waith.

9.5 Adroddodd KC bod Trysorlys EM wedi gofyn i'r cynlluniau gomisiynu Adran Actiwari'r Llywodraeth i gynnal ymarfer i adolygu ffigyrau cap cost cyflogwyr i ystyried effaith y newid i gyfradd ostyngedig SCAPE yng Nghyllideb 2016, o 3% i 2.8%. Roedd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn trafod gyda Thrysorlys EM o ran sut i reoli'r broses. Nid oedd yn glir a fyddai unrhyw ddiwygiadau arfaethedig o ganlyniad i'r adolygiad.

EITEM 10 AR YR AGENDA– UNRHYW FUSNES ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10.1 Diolchodd MP i'r aelodau am fod yn bresennol a diolchodd i CA am ei chyfraniad i'r cyfarfod.

10.2 Ailbwysleisiodd MP y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu i gael ei gynnal yn yr hydref ar ôl derbyn papur rhagdybiaethau drafft Adran Actiwari'r Llywodraeth. Nododd MP ei bod yn bwysig i bob aelod ddod i'r cyfarfod nesaf a gofynnodd am safbwyntiau'r aelodau ar leoliad y cyfarfod nesaf ac yn y dyfodol. Nododd GM y byddai'n well gan Undeb y Brigadau Tân i'r cyfarfod gael ei gynnal mewn lleoliad mwy canolog fel Caerdydd. Roedd gweddill y Bwrdd yn fodlon parhau i deithio i Landrindod.

10.3 Cyfeiriodd MP at y drafodaeth gynharach am newidiadau posibl i'r aelodaeth a gofynnodd am farn yr aelodau ynglŷn â chynnal digwyddiad hyfforddi ym mis Gorffennaf. Awgrymodd PH na ddylai'r hyfforddiant gael ei gyfyngu i aelodau'r bwrdd ond y dylai gynnwys gweinyddwyr hefyd. Cyfeiriodd MP at y sesiwn hyfforddiant a ddarparwyd i'r aelodau gan CA. Cadarnhaodd CA ei bod yn fodlon darparu sesiwn hyfforddiant ychwanegol. Cytunodd y Bwrdd â'r dull hwn ac roedd yn fodlon i'r hyfforddiant gael ei gynnal yn Llandrindod.

10.4 Dywedodd MP ei fod yn dymuno ymgysylltu â phob un o'r byrddau pensiwn ac y byddai'n croesawu gwahoddiad i fynd i gyfarfod o bob un o'r tri yn y dyfodol pan fydd trefniadau aelodaeth newydd wedi eu datrys, ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol.